

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed Fedi 2014

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Jim Boughton, Janet Charlton, Marion Bettenev, Gareth Parry, Gwawr Jones, Karen Pugh, Terry Bullock, Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Gareth Parry

Datgan diddordeb- Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Ethol Is Gadeirydd

Penderfynwyd yn unfrydol i ethol y Cyng. Marion Bettenev yn Is gadeirydd y Cyngor

Cofnodion - Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 21ain Orffennaf 2014.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd presenoldeb gan yr heddlu

[1.1] Problemau Ysbwriel yng Nghoedwig Gwydr

Cadarnhaodd Mr Kim Burnham [Cyfoeth Naturiol Cymru] fod staff llawn amser ychwanegol wedi ei penodi ac y byddent yn gweithio ar ben wythnosau. Dywedodd hefyd y byddai swyddog ar gael i ymateb i'r rhif rhadffôn.

[1.2] Arwyddion/Poster

Nodwyd cydnabyddiaeth oddiwrth APCE ynglŷn â chais y Cyngor i gynnal adolygiad o'r arwyddion a hysbysiadau yn y pentref. Y clerch i geisio gwybodaeth ynglŷn â'r amserlen.

[1.3] Toiledau Ffordd yr Orsaf

Dywedodd Y Cyng. E Roberts bod Mr Steven Teal o Adran yr Amgylchedd yn awyddus i fynychu'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor. Y clerch i wneud trefniadau.

[1.4] Pont Droed Gorsaf Reilffordd Betws-y-coed

Cadarnhaodd y Cyng. E Roberts ei bod yn parhau i wneud ymholiadau.

[1.5] Linellau Melyn gyferbyn a Gwestai'r Glan Aber ar Gwydr

Dywedodd y clerch bod trefniadau yn barod i wneud y gwaith.

[1.6] Arwyddion Gwybodaeth Twristiaeth/ Rhaeadr Ewynnol

Cyfeiriodd y clerch at sylwadau gan Mr Glenn Evans yn argymhell y dylai symbol o'r Rhaeadr gael ei gynnwys yn rhan o'r arwydd, ac y dylai ystyried ail leoli'r arwydd "Porth Eryri" i ochr arall y briffordd. Gan ystyried fod lleoliad yr arwydd "Porth Eryri" wedi ei drefnu gan Adran Priffordd y Cynulliad penderfynwyd y byddai hyn yn creu problemau. Y clerch i drefnu i gynnwys y symbol yn yr arwydd ac i drafod y mater ymhellach gyda Mr Glenn Evans.

[1.7] Goleuadau 25-29 Bro Gethin/ Lampau heb Olau

Gan ystyried yr amser maith ers i'r cwyn gwreiddiol gael ei wneud y clerch gysylltu gyda Scottish Power.

[1.8] Pentre' Du/Arwydd Ychwanegol

Cyfeiriodd y clerc at ateb gan Mr Wil Roberts [Cyngor BS Conwy] na fyddai arwydd ychwanegol yn fantais o ystyried fod y cae chwarae yn weladwy o'r ffordd, a bod y tîm diogelwch yn ymweld ag ysgolion i hyfforddi plant ynglŷn â chroesi'r ffordd a.y.b.

[1.9] Materion Ffyrdd

[a] Y clerc i gysylltu gyda Chyngor BS Conwy ynglŷn â'r wal yn gogwyddo gyferbyn a Hafan

[b] Nodwyd nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth yr Asiantaeth Briffyrdd ynglun ar wal yn gogwyddo gyferbyn a safle gweryslla'r Hendre

Y Brif Agenda

[2] Materion Cynllunio

[a] Nodwyd bod cais ôl- weithredol i osod celf metel ar ben wal Ffordd yr Orsaf wedi ei wrthod.

[b] Gosod ffenestr Velux, Bod Afon, Betws-y-Coed

[c] Estyniad Bod Afon, Betws-y-Coed

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r ddau gynnig uchod.

[d] Adeiladu Uned Manwerthu, Isfryn Betws-y-Coed

Y clerc i geisio mwy o wybodaeth ynglŷn ar fath o uned a.y.b.

[e] Adeiladu Garej Willow Cottage, Pentre Du. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth gan y Cyng. Gwawr Jones ynglŷn â manylion adeiladu gan APCE ar ran Mrs Beryl Williams

Y clerc i geisio cwrdd y Swyddog Cynllunio yn y syrjery leol nesaf.

[2.1] Materion Ariannol

[b] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddosbarthwyd] a wnaed yn ystod Gorffennaf/Awst 2014.

[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Gorffennaf/Awst2014.

[2.2] Llyn Elsi

Eglurodd y clerc bod pryder yn lleol ynglŷn â lefel y dŵr yn y llyn a bod dŵr yn cael ei ollwng ar gyfer Orsaf Hydro Ystâd Ancaster ym Mhentre' Du. Y clerc i gysylltu gyda Mr William Hall [Ystad Ancaster] ynghylch y mater.

[2.3] Offer Chwaraeon /Cae Llan

Y Clerc i gysylltu gyda CGGC i wneud ymholiad ynghylch y posibilrwydd o grant.

[2.4] Gwasanaeth Coffa Rhyfel Byd Cyntaf

Cytunodd y Cadeirydd i wneud ymholiadau ynghylch trefniadau i gynnal gwasanaeth coffa yn y neuadd.

[2.5] Ysbwriel

Y clerc i gysylltu gyda Cyngor BS Conwy ynglun ar ysbwriel sydd ar ymylon ffordd yr A5 o Bentre Du i'r Rhaeadr Ewynnol a Hen Ffordd yr Eglwys

Cadeirydd_____